

## YALE (TEULU), Plas yn lâl (Bryneglwys) a Plas Gronw (Wrecsam).

Yr oedd y teulu hynafol hwn yn sir Ddinbych yn disgyn o [Osbrwn Wyddel](#), Corsygedol, Sir Feirionnydd, hynaif [Fychaniaid](#) Corsygedol, trwy briodas Elise, gor-or-orwyr [Osbrwn](#), ag aeres Allt Llwyn Dragon (Plas yn lâl wedi hynny). Addysgwyd ei wyr ef,

THOMAS YALE (c. 1526 - 1577), cyfreithiwr eglwysig CrefyddCyfraith,

trydydd mab David Lloyd (Yale) a Gwenhwyfar Lloyd, [Llwyn-y-maen](#), yng Ngholeg Queens ', Caergrawnt, a daeth yn gymrawd o'r coleg hwnnw (1544-67) ar ôl iddo raddio. Yn 1546, derbyniodd is-urddau eglwysig ('minor orders'), 24 Medi 1556, gan [William Glyn](#), esgob Bangor, a'i sefydlodd yn rheithoraeth Llantrisant, sir Fôn, ychydig wythnosau'n ddiweddarach. Ni bu'n byw yno fodd bynnag, eithr ymgymhwysodd ar gyfer gyrfa ym myd y gyfraith trwy ddyfod yn Ll.D. (1557) ac yn gyfreithiwr yn llys archesgobol Caergaint (1559) - mewn pryd i gymryd rhan flaenllaw yn y trefniadau cyfreithiol ynglyn ag apwyntiad Matthew Parker yn archesgob Caergaint. Gwnaeth, Parker ddefnydd pur helaeth ohono, gan ei wneuthur yn ganghellor, yn ' vicar-general,' yn farnwr y 'court of audience,' ac edrych arno fel gwr ei ddeheulaw, a'i anfon amryw droeon ar ymweliadau esgobol, yn cynnwys dau ymweliad ag esgobaeth Bangor, 1566 a 1576, yr ail dro gyda [Nicholas Robinson](#), a'i enwi fel ysgutor yn ei ewyllys. O 1562 hyd 1570 yr oedd yn ganghellor esgobaeth Bangor ac o 1564 hyd 1573 yn brebend y Faenol yn eglwys gadeiriol Llanelwy, a gyfrifid yn werth £40 y flwyddyn. Yr oedd yn ' Dean of Arches ' o 1567 hyd 1573 ac ar 12 Gorffennaf 1570 gwnaethpwyd ef yn gyd-geidwad (gyda mab Parker) o lys ewyllysiau ('prerogative court') Caergaint. Ar ôl cael ei ethol yn archesgob Caergaint, 1576, ymgynghorodd Grindal â Yale a [William Awbrey](#) ar fater diwygio y llysoedd eglwysig, a phan gymerwyd lle Grindal oddi arno ('sequestration'), bu Yale yn gweinyddu'r holl archesgobaeth hyd adeg ei afiechyd marwol ym mis Tachwedd 1577 pryd y'i dilynwyd gan [Awbrey](#).

Y mae'n weddol sicr mai mab anghyfreithlon John Wyn (Yale), aer Plas yn lâl a brawd hyn Thomas Yale, oedd

DAVID YALE (neu LLOYD) (fu farw 1626), canghellor Crefydd Caer.

Dilynodd ei ewythr i Goleg Queens ', Caergrawnt, 1555, a bu yntau, fel ei ewythr, yn gymrawd ei goleg (1565-81). Wedi iddo raddio, cafodd reithoraeth Llandegla (1564-73) ac yn 1578 cafodd ei ddewis yn brebend y Faenol ar ôl ei ewythr. Gydag Edmund Meyrick bu'n gweinyddu esgobaeth Bangor pan oedd yn wag (1585) rhwng cyfnod [Nicholas Robinson](#) a Hugh Bellot. Daeth yn brebendari Caer, 1582, ac yn ganghellor yr esgobaeth, 1587. Yn 1598 prynodd diroedd lawer gan deulu Erddig (Erthig) (gweler dan [Edisbury](#)), gan werthu rhai ohonynt eithr cadw Plas Gronw a fu'n gartref ei deulu hyd 1721. Priododd ei fab, Thomas Yale II, â merch [George Lloyd](#), esgob Caer, ac wedi marw ei gwr ac iddi hithau ail- briodi â llywiawdr New Haven (Con., U.D.A.), aeth ei weddw a'i phlant i fyw yn Plas Gronw gyda'i thad-yng-nghyfraith.

Wyr i Thomas Yale II oedd

ELIHU YALE (1649 - 1721), marsiandwr Diwydiant a BusnesDyngarwch yn yr India.

Yn America y ganwyd ef eithr dychwelodd i Brydain (c. 1651) yn blentyn gyda'i dad, David Yale (II) a ychwanegodd Lwyn Einion at eiddo'r teulu. Cafodd y mab ei addysg yn Llundain a danfonwyd ef gan ei dad i Madras (c. 1670) i fod yn glerc o dan yr East India Company. Daeth yn llywiawdr ('governor') yno (1687-99), a dychwelodd gyda ffortiwn o £200,000 i fyw yn Llundain (fel un o lywiawdwyr y cwmni) bob yn ail â Phlas Gronw lle yr oedd yn noddwr hael i eglwys Wrecsam ac yn fenthyciwr arian i [Josua Edisbury](#); eithr cofir ef yn bennaf am ei roddion (1714-21) i'r coleg yn New Haven, a enwyd yn Brifysgol Yale wedi hynny ar ei enw ef. Bu farw yn Llundain yn 1721 heb wneuthur ei ewyllys. Aethpwyd â'i weddillion i Wrecsam i'w claddu, a rhannwyd y stad rhwng cyd-aeresau, a werthodd y rhan fwyaf ohoni. Aeth Plas Gronw yn ôl i feddiant stad Erthig yn 1728 a thynnwyd y ty i lawr yn 1876.

## Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

## Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*, a'r ffynonellau a enwir yno

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 189

J. Y. W. Lloyd, *History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog*, v, 137-44

A. N. Palmer, *History of the thirteen country townships of the old parish of Wrexham, and of the townships of Burras Riffri, Erlas, & Erddig Being the fifth and last part of "A history of the town and parish of Wrexham"* (1903), 216-20, 244-53

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), 1912, i, 133

A. Ivor Pryce, *The Diocese of Bangor in the sixteenth century being a digest of the registers of the bishops, A.D. 1512-1646*

(1923), 15, 50

Venn, *Alumni Cantabrigienses*

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

